



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019
Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Dirprwy Gadeirydd)
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Rebecca Masters	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sue Price	Coleg Cambria
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Mark Pierce	Heddlu Gogledd Cymru
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Claire Mooney	Gwasanaeth Prawf Cymru
Amanda Aldridge	Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogaeth y Rhaglen

Michael Cantwell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Sandra Williams	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr
Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1	Croeso	
	Croesawodd Hugh bawb i'r cyfarfod er mwyn ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y BGC.	
	Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod diwethaf y BGC.	

	<p>Enwebwyd Lyndsey Rawlinson yn Gadeirydd gan Hugh Jones, eiliwyd y cynnig gan Sue Price, ac roedd pawb o blaid.</p> <p>Enwebwyd Hugh Jones yn Ddirprwy Gadeirydd gan Lyndsey Rawlinson, eiliwyd y cynnig gan Ian Bancroft, ac roedd pawb o blaid.</p>	
	Cyflwynodd Lyndsey flodau ar ran y BGC i Helen Odunaiya, gan ddiolch iddi am y cymorth a'r arweiniad ardderchog a roddodd i'r BGC, ac i'r BGLI cyn hynny. Mae Helen wedi gadael CBSW i gymryd swydd gyda BIP Betsi Cadwaladr.	
	<p>Cymerodd Lyndsey rôl y Cadeirydd gan rannu rhywfaint o syniadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n bwriadu dod ag egni, brwdfrydedd ac ymrwymiad i'r rôl, a'i nod yw mynd ati i wthio'r agenda amgylcheddol a'r ymagwedd ranbarthol tuag at argyfwng yr hinsawdd. • Bydd yn annog aelodau eraill y BGC i ymgymryd â rôl y Cadeirydd a'r Dirprwy, ac mae'n fodlon cynnig mentora ar yr hyn y mae'r rôl yn ei olygu. • Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru berson ychwanegol ar y Bwrdd er mwyn cynyddu cymhwysedd a chefnogaeth. • Mae gan y BGC gyfle i chwarae rhan fwy gweithredol yn 2019/20, gan gysoni ac integreiddio'r blaenoriaethau, datblygu gwaith tîm a gweithio mewn partneriaeth a sicrhau bod ein sefydliadau'n parhau i wneud pethau'n wahanol. 	
	Strategol	
1	Beth rydym ni wedi'i gyflawni hyd yma?	
	<p>Adroddiad Blynyddol</p> <p>Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2018/19 yn y cyfarfod, a theimlwyd ei bod yn werth amlygu pedwar maes allweddol yn benodol, a chreu dolenni i fideos a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn dathlu ein cynnydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae'r camau lles yn cael eu llunio o amgylch y ffyrdd o weithio • Y bartneriaeth sy'n datblygu gyda Senedd yr Ifanc a Chomisiynydd Plant Cymru • Yr Addewid Chwarae • Ymagwedd ranbarthol tuag at newid hinsawdd 	MC/SG
	Cytunwyd y byddai partneriaid y BGC yn cydweithio i hyrwyddo'r hyn sy'n cael ei gyflawni drwy'r cynllun lles, yn enwedig i aelodau staff y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys targedu negeseuon yn well yn ystod y flwyddyn, ar y cyd a gan sefydliadau unigol.	
	Gweithio gyda phartneriaid i gynhyrchu negeseuon ar gyfer y pedwar maes a amlygwyd yn yr adroddiad blynyddol.	SP/AA
	Datblygu'r negeseuon tymor hwy a strategaeth ymgysylltu, i'r BGC eu trafod ym mis Medi.	TA

	<p>Y wybodaeth ddiweddaraf Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gan arweinwyr y tri bwrdd rhaglen. Mae'r rhain ynghlwm wrth y cofnodion ac ar gael ar wefan y BGC.</p>	
	<p>Cychwyn Iach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd RM nad oes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ei adnoddau ei hun i gymryd y camau ymlaen, sy'n gwneud gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol. • Teimlai JG ei bod yn bwysig i'r BGC edrych ar y darlun mawr bob tro, megis yr effaith ar deuluoedd a'u hamgylchedd lleol, yn hytrach na chanolbwyntio ar un ystod oedran yn unig. • Trafododd y BGC beth fyddai'r ffordd orau o barhau i ymgysylltu â'r Senedd, a theimlwyd y byddai'r sgwrs yn fwy naturiol a chynhyrchiol pe bai'r BGC yn ceisio barn plant a phobl ifanc yn barhaus. 	
	Siarad â Senedd yr Ifanc ym mis Medi i ganfod blaenoriaethau ar y cyd.	LR/MC
	<p>Dysgu Gydol Oes</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd IR a allai'r Bwrdd Dysgu Gydol Oes ymchwilio i'r lefelau isel o ddyhead ymysg pobl ifanc, a mynd i'r afael â hyn. • Nododd AA fod y DWP wedi cynnal prosiect dyhead llwyddiannus mewn ysgolion ym Mhowys, a noddwyd gan fusnesau, ac y gallem ninnau ystyried cynnal y cynllun yn Wrecsam. • Awgrymodd IB y gellid casglu modelau rôl llwyddiannus ynghyd, allai ysbrydoli a mentora'r bobl ifanc, megis Evrah Rose, sef bardd preswyl Tŷ Pawb. • Dywedodd SP fod gan Coleg Cambria hanes blaenorol da o rannu straeon myfyrwyr sydd wedi cyflawni, yn academiaidd, yn gymdeithasol neu yn eu cymuned. • Amlygodd SS yr angen i dyrchu'n ddwfn i'r hyn sy'n achosi diffyg dyhead, gan nodi y gall anghydraddoldeb fod wedi'i seilio ar ryw, dosbarth, diwylliant neu hil, ac y gall gychwyn yn gynnar iawn gyda'r negeseuon a drosglwyddir i bobl ifanc gan eu rhieni, ysgolion, y cyfryngau a phlant eraill. 	
	Cytunodd y BGC i ofyn i'r Bwrdd Dysgu Gydol Oes ystyried prosiect dyheadau, gan nodi partneriaid a rhannu arferion da.	SP
	<p>Pobl hŷn ac iechyd meddwl Cytunwyd y gallai Meddyg Teulu fynychu un o gyfarfodydd busnes y BGC yn y dyfodol i drafod gwaith cyfuno iechyd a gofal cymdeithasol a dod â phartneriaid ynghyd fel rhan o glwstwr iechyd lleol.</p>	RS
2	Datblygu ein blaenoriaethau	
	Cytunodd y BGC i ddatblygu blaenoriaeth cyd-nerthu cymunedol ar gyfer 2019/20. Teimlwyd fod y maes hwn yn un eang iawn, allai gynnwys gwirfoddoli, dyheadau, argyfwng yr hinsawdd a rhagnodi cymdeithasol, ac y byddai'n helpu ymuno'r tri bwrdd arall â'i gilydd. Y gobaith yw y bydd y bwrdd rhaglen hwn yn cael ei drefnu ai reoli gan y trydydd sector, oherwydd eu harbenigedd mewn datblygu ymgysylltiad hirdymor ar lefel gymunedol.	

	Trefnu cyfarfod cwmpasu ar gyfer mis Gorffennaf i gytuno ar ganolbwynt y Bwrdd Cydnerthu Cymunedol, er mwyn gweld yn glir lle gallai'r BGC ychwanegu gwerth orau i'r gweithgareddau prosiect presennol a'r hyn sydd ar y gweill.	LR/MC
	CBSW i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfodydd busnes y BGC yn y dyfodol, gyda newyddion am adfywio a buddsoddiad mewn seilwaith yn Wrecsam. Bydd y TA yn penderfynu ar y ffordd orau o rannu'r wybodaeth hon.	IB/TA
	<p>Newid Hinsawdd</p> <p>Mae BGC Wrecsam yn arwain y ffordd ar ddatblygu fframwaith argyfwng hinsawdd rhanbarthol, a chyflwynodd MC a Justin Hanson (CNC) gynnig gan BGC Wrecsam yng nghyfarfod diweddar y Cyd Brif Weithredwyr rhanbarthol, a gytunodd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi mwy o flaenoriaeth i waith a lleoliadau Newid Hinsawdd, i wneud mwy i integreiddio eu gwaith ar newid hinsawdd • Cymryd cyngor i gyflwyno datgarboneiddio i bolisiau caffael • Gadael i BUEGC arwain ar ymateb rhanbarthol (fframwaith) i newid hinsawdd drwy'r rhaglenni Cludiant / Ynni Clyfar 	
	Y cam nesaf fydd i CNC arwain tîm prosiect rhanbarthol, gan wneud defnydd effeithiol o grant BGC rhanbarthol LIC. Bydd tîm y prosiect yn edrych ar y gwaith y mae'r 5 BGC yng Ngwent wedi ei gynhyrchu er mwyn ystyried sefyllfaoedd y dyfodol.	LR/MC
3	Beth yw'r pwrpas rydym ni'n ei rannu?	
	Cytunodd y BGC i'r Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddarau, fydd yn cael ei ddsbarthu. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn yng nghyfarfod mis Mehefin.	MC
	Cytunwyd bod angen i'r BGC ganolbwyntio'n glir yn awr ar ganlyniadau ar draws y blaenoriaethau, gan fesur cynnydd a datblygu partneriaethau. Bydd cynllun gweithredu RAG yn cael ei gynhyrchu i gysylltu â'r Cylch Gorchwyl a phymtheg blaenoriaeth y cynllun lles.	LR/MC
	Cytunwyd i gylchdroi rhwng trafodaethau gweithdy a chyfarfodydd busnes yng nghyfarfodydd y BGC sydd i ddod.	
	<p>Cytunodd y BGC y byddai cyfarfod gweithdy mis Medi yn trafod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut i barhau i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau'r BGC • Ymhle y gall camau'r BGC ddatblygu'r Gymraeg orau a sut rydym ni'n sicrhau ein bod yn ystyried y Gymraeg a diwylliant Cymru wrth wneud penderfyniadau • Sut mae cynnal cynnydd ar y materion trawsbynciol, a sicrhau bod hyn yn gydnaws â'r nodau lles cenedlaethol • Beth sydd ei angen i reoli meysydd blaenoriaeth a'u cynlluniau gweithredu ar gyfer 2019/20 a thu hwnt • Cymryd y cyfle i edrych ar arferion gorau ac arloesi 	TA
	Yn dilyn trafodaeth am y Gymraeg, cytunwyd i wahodd Llinos Roberts o Goleg Cambria i	SP

	un o'r cyfarfodydd busnes yn y dyfodol er mwyn cynnal sesiwn ymwybyddiaeth.	
	Gweithredol	
4	Unrhyw Fater Arall	
	<p>Mae BGC Conwy a Sir Ddinbych wedi gwahodd aelodau BGC Wrecsam i lansiad grŵp amgylcheddol Gogledd Cymru, mewn cyfarfod ar 18 Medi 2019.</p> <ul style="list-style-type: none"> Anfonwch eich enw i MC os hoffech chi fynychu'r digwyddiad ar ran BGC Wrecsam. 	PAWB/ MC
	Mae CNC yn cynnal tri digwyddiad ymgysylltu ar y datganiadau ardal sydd i ddod ym mis Gorffennaf, a gofynnir i sefydliadau'r BGC rannu'r gwahoddiad â'u sefydliadau.	LR
5	Dyddiadau Cyfarfodydd 2019/20:	
	<p>12.09.19 10am tan 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam</p> <p>12.12.19 10am tan 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam</p> <p>12.03.20 10am tan 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam</p> <p>11.06.20 10am tan 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam</p>	

Anfonwch neges e-bost i sustainability@wrexham.gov.uk os hoffech chi ragor o wybodaeth am y cofnodion hyn.